Gellir defnyddio'r polisi hwn os ydych yn profi bwlio, aflonyddu a/neu erledigaeth naill ai yn y gwaith neu mewn digwyddiadau cysylltiedig â gwaith (gan gynnwys cynadleddau cymdeithasol a theithiau busnes). Os ydych chi'n gwneud cwyn anffurfiol neu ffurfiol am fwlio, aflonyddu a/neu erledigaeth, byddwch yn cael eich trin yn deg, heb erledigaeth na niwed. Fodd bynnag, pan fydd cwynion blinderus neu faleisus yn cael eu gwneud, byddant yn cael eu trin yn unol â Gweithdrefn Ymddygiad BBC Studios.

Mewn amgylchiadau penodol, efallai y byddwn yn penderfynu ei bod yn fwy priodol i'ch cwyn gael ei hymchwilio neu ei thrin o dan Weithdrefn Cwynion neu Weithdrefn Ymddygiad BBC Studios. Mewn achos fel hyn, bydd BBC Studios yn cael trafodaeth â chi ynghylch y rhesymau dros hynny. Os ydych chi'n penderfynu bwrw ymlaen â chwyn ffurfiol drwy Bolisi Bwlio ac Aflonyddu BBC Studios, ni

fyddwch yn gallu gwneud cwyn arall am yr un mater gan ddefnyddio Gweithdrefn Cwynion BBC Studios.

Pan fydd gwahaniaethu, erledigaeth neu fwlio a/neu aflonyddu wedi cael eu canfod, byddant yn cael eu trin drwy Weithdrefn Ymddygiad BBC Studios. Bydd ffactorau gwaethygol, fel cam-drin pŵer dros gydweithiwr iau, yn cael eu hystyried wrth benderfynu pa gamau disgyblu i'w cymryd. Mae achosion difrifol o wahaniaethu, erledigaeth neu fwlio a/neu aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, yn enghreifftiau o gamymddwyn difrifol, sy'n weithredoedd mor ddifrifol nes cyfiawnhau diswyddo'n syth heb rybudd.

Diffiniadau

Mae gan bawb yn y BBC yr hawl i beidio â bod yn ddarostyngedig i fwlio a/neu aflonyddu yn y gwaith nac i weithio mewn amgylchedd gwaith bygythiol.

Gall bwlio a/neu aflonyddu ddigwydd mewn nifer o ffyrdd, naill ai ar lafar neu heb fod ar lafar, gan gynnwys wyneb yn wyneb, tu ôl i'ch cefn, dros y ffôn, drwy gyfrwng e-bost, testun, cyfryngau cymdeithasol neu unrhyw ffurf arall ar gyfathrebu a gall hefyd ddigwydd drwy ddangos neu rannu delweddau gweledol.

Nid oes diffiniad statudol o **fwlio**; fodd bynnag, gall ddigwydd ar ffurf rhywun yn arfer pŵer dros unigolyn arall drwy weithred negyddol neu weithredoedd sy'n tanseilio'r unigolyn yn bersonol a/neu yn broffesiynol. Mae'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) yn nodweddu bwlio fel ymddygiad ymosodol, bygythiol, maleisus neu sarhaus, cam-drin neu gamddefnyddio pŵer gyda'r bwriad o danseilio, codi cywilydd, difrïo neu anafu'r ymatebydd.

Mae'r polisi hwn yn defnyddio'r diffiniad o **aflonyddu** fel sy'n cael ei ddiffinio o dan y gyfraith fel ymddygiad diangen sy'n ymwneud â nodwedd warchodedig berthnasol neu sydd o natur rywiol, a lle mae gan yr ymddygiad y diben neu'r effaith o dreisio urddas unigolyn, neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, iselhaol neu dramgwyddus i'r unigolyn hwnnw. Y nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth

sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae **aflonyddu rhywiol** yn digwydd pan fydd gweithiwr yn dioddef ymddygiad digroeso sydd o natur rywiol. Nid oes angen cymhelliant rhywiol ar gyfer yr ymddygiad, dim ond ei fod yn rhywiol ei natur. Yn y bôn, mae diangen yn golygu'r un peth â 'digroeso' neu 'heb wahoddiad'. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle nad yw ymddygiad yn ddi-alw-amdano yn y camau cynharaf, ond ar ryw adeg mae'n 'mynd yn rhy bell' ac yn dod yn ddiangen.

Erledigaeth yw pan fydd rhywun yn eich trin yn wael neu eich niweidio oherwydd eich bod yn cwyno am achos o wahaniaethu neu yn helpu rhywun sydd wedi dioddef o wahaniaethu (neu os bydd rhywun yn meddwl eich bod wedi gwneud hynny).

Mae **cam-drin pŵer** yn golygu pan fydd rhywun yn defnyddio ei rôl, ei swydd neu ei gysylltiad â'r BBC i ddylanwadu, aflonyddu, aflonyddu'n rhywiol neu wneud gofynion afresymol ar eraill, neu yn eu bwlio neu'n gwahaniaethu yn eu herbyn.

Nid yw bwlio a/neu aflonyddu o reidrwydd bob amser yn amlwg neu'n weladwy i bobl eraill, a gall ddigwydd yn y gweithle heb i'r cyflogwr wybod. Gall ddigwydd rhwng dau unigolyn neu gall gynnwys grwpiau o bobl. Gall fod yn amlwg neu gall fod yn llechwraidd. Gall fod yn barhaus, efallai bod patrwm, neu gall fod yn ddigwyddiad unigol. Gall hefyd ddigwydd mewn cyfathrebiadau ysgrifenedig, ar-lein/ar gyfryngau cymdeithasol, dros y ffôn neu ar e-bost, nid wyneb yn wyneb yn unig.

Nodwch fod llawer o weithredoedd ac ymddygiadau nad ydynt yn gyfystyr â bwlio a/neu erledigaeth.

Er enghraifft:

- beirniadaeth deg a rhesymol o'ch perfformiad neu'ch ymddygiad
- rheolwr yn gwrthod eich cais personol (fel cais am amser i ffwrdd neu gais i addasu eich oriau) oherwydd angen busnes cyfiawn.
- adborth adeiladol
- peidio â'ch gwahodd i gyfarfod lle nad oes eich angen

- cael eich rheoli'n briodol yn unol ag unrhyw un o bolisïau BBC Studios, ee, cael eich rhoi ar weithdrefn perfformiad os nad yw eich perfformiad yn cyrraedd safon briodol

Mae enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol a allai fod yn gyfystyr â bwlio neu aflonyddu yn cynnwys:

- taenu sïon maleisus, neu sarhau rhywun drwy eiriau neu ymddygiad
- mynd ati'n faleisus i gopïo nodiadau sy'n feirniadol am rywun i bobl eraill nad oes arnynt angen gwybod
- bychanu neu ddiraddio rhywun - pigo arnynt neu eu rhoi mewn sefyllfa i fethu
- erlid neu allgáu rhywun o weithgareddau gwaith mewn modd anghyfiawn
- cyfathrebu mewn ffordd ddiraddiol
- camddefnyddio pŵer neu sefyllfa fel mynd ati'n fwriadol i ddiraddio gweithiwr cymwys drwy roi gormod o waith iddo a'i feirniadu'n barhaus.
- atal unigolion rhag symud ymlaen drwy rwystro dyrchafiad neu gyfleoedd hyfforddi yn fwriadol neu'n anghyfiawn.
- gwneud bygythiadau neu sylwadau am ddiogelwch swydd heb sail i hynny

Mae enghreifftiau o aflonyddu rhywiol yn cynnwys:

- sylwadau, cellwair a/neu jôcs rhywiol
- arddangos lluniau, posteri neu ffotograffau rhywiol graffig
- edrych, syllu neu gilwenu'n awgrymog
- cynigion a chynigion rhywiol
- gwneud addewidion yn gyfnewid am ffafrau rhywiol
- ystumiau rhywiol
- cwestiynau ymwthiol am fywyd preifat neu rywiol unigolyn neu, rywun yn trafod ei fywyd rhywiol ei hun
- negeseuon rhywiol neu gyswllt ar y cyfryngau cymdeithasol
- lledaenu sïon rhywiol am rywun
- anfon negeseuon e-bost, negeseuon llais neu negeseuon testun neu ar gyfryngau cymdeithasol sy'n amlwg rywiol
- cyffwrdd, cofleidio, tylino neu gusanu'n ddigroeso

Mae enghreifftiau o gamddefnyddio pŵer yn cynnwys:

Defnyddio eich rôl, eich swydd neu eich cysylltiad â'r BBC a / neu ddefnyddio'r proffil neu'r enwogrwydd gerbron y cyhoedd a gewch drwy weithio i'r BBC, er mwyn gwneud y canlynol:

- Cynnig mynediad at yrfaoedd neu gysylltiadau'r BBC yn gyfnewid am ffafrau personol
- Cael mynediad at wybodaeth neu feysydd nad ydynt yn gysylltiedig â'ch gwaith
- Ennyn ymddiriedaeth pobl eraill a chamddefnyddio'r pŵer i sefydlu perthnasoedd personol
- Aflonyddu, bwlio neu osod gofynion afresymol ar eraill
- Aflonyddu'n rhywiol, gwahaniaethu a / neu ddychryn eraill
- Meithrin perthynas amhriodol (y tu mewn neu'r tu allan i'r BBC), gyda'r bwriad o gael ffafrau personol, perthnasoedd neu achosi niwed i eraill
- Defnyddio arian y BBC er budd personol
- Annog cydweithwyr i blygu neu dorri rheolau'r gweithle
- Methu deall neu gydnabod yr angen am ffiniau personol a phroffesiynol clir yn eich gwaith
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n tanseilio ymddiriedaeth a hyder y BBC ynoch chi
- Dylanwadu ar eraill i wneud penderfyniad o'ch plaid

Cyfrifoldebau

Rhaid i chi gydymffurfio â'r polisi hwn. Rhaid i chi barchu pobl eraill beth bynnag fo'u nodweddion ac ni ddylech ymddwyn mewn ffyrdd a allai achosi tramgwydd, neu mewn unrhyw ffordd y gellid ystyried hynny'n aflonyddu, yn fwlio neu'n erledigaeth. Mae gennych chi gyfrifoldeb i helpu i wneud yn siŵr bod eich holl gydweithwyr a phawb sy'n ymweld â'r BBC yn cael eu trin â pharch ac urddas.

Pan fyddwch yn teimlo bod modd i chi wneud hynny, dylech ddangos nad ydych chi'n cefnogi aflonyddu, bwlio neu erledigaeth drwy wneud yn glir eich bod yn gweld ymddygiad o'r fath yn annerbyniol. Dylech gefnogi cydweithwyr sy'n dioddef

o unrhyw driniaeth o'r fath ac sy'n ystyried gwneud cwyn ffurfiol. Dylech roi gwybod i reolwr am unrhyw achos o aflonyddu, bwlio neu erledigaeth er mwyn galluogi'r BBC i ddelio â'r mater.

Mae gan Arweinwyr/ Rheolwyr Timau ddyletswydd i fynd i'r afael ag aflonyddu, bwlio ac erledigaeth yn y gweithle. Mae ganddynt hefyd ddyletswydd i atgoffa cyflogeion o'r ymddygiad sy'n ddisgwyliedig mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â'r gwaith, gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol tîm, yn enwedig lle gallai pobl fod yn yfed alcohol.

Mae gan BBC Studios amrywiaeth o fesurau ataliol ar waith i helpu cyflogeion, gweithwyr llawrydd a rheolwyr i ganfod ac atal achosion o fwlio, aflonyddu ac erledigaeth, gan gynnwys gwefan y Cod Ymddygiad a hyfforddiant gorfodol, a'r Addewid ym maes Cynhyrchu.

Sut mae lleisio pryder sy'n ymwneud â Bwlio neu Aflonyddu

Dylai cyflogeion a gweithwyr llawrydd BBC Studios (talu wrth ennill neu ar dâl gros) gyfeirio at y polisi hwn i leisio eu pryder. O ran gweithwyr llawrydd, bydd yr un egwyddorion o ran tegwch a gwrthrychedd yn cael eu defnyddio. Dylent leisio eu pryder yn anffurfiol i ddechrau. Os bydd cwyn ffurfiol yn cael ei gwneud gan weithiwr llawrydd, bydd pob un o'r pedwar cam a amlinellir yn y broses ffurfiol i gyflogeion isod yn cael eu dilyn. Mewn rhai achosion, gellir gwneud diwygiadau i bob cam pan fydd hynny'n ymarferol angenrheidiol i sicrhau bod pryderon sy'n cael eu lleisio'n cael eu hystyried a'u hateb yn brydlon. Er enghraifft, os yw'r gweithiwr llawrydd wedi cymryd gwaith gyda chyflogwr arall, efallai y byddai'n fwy ymarferol i gynnal cyfarfodydd neu wrandawiadau o bell a/neu gynnal y broses bedwar cam drwy gyflwyniadau ysgrifenedig neu fel adolygiad papur.

Dylai is-gontractwyr neu weithwyr asiantaeth anfon unrhyw gŵyn at eu cyflogwr, a fydd yn cael ei thrin yn unol â Phroses Gwyno Rhyng-gwmni y BBC. Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i ymwelwyr a gwesteion ond dylent gysylltu ag adran Cwynion y BBC.

Dull BBC Studios o ddelio â chwynion sy'n ymwneud â Bwlio neu Aflonyddu

Y Broses

Proses Anffurfiol

Gall bob unigolyn sy'n gweithio i'r BBC ddefnyddio'r broses anffurfiol. Pan fo'n bosibl ac yn briodol, rydym yn eich annog i geisio datrys problemau yn anffurfiol, cyn defnyddio'r broses ffurfiol.

Mae'r broses anffurfiol yn canolbwyntio ar ddatrys anghydfodau yn gynnar. Yn aml, gall datrysiadau anffurfiol olygu bod materion yn cael eu datrys yn gyflymach, gan helpu i leihau effaith emosiynol ar y bobl sy'n gysylltiedig. Er enghraifft, gall cyfryngu ddatrys mater mewn diwrnod, ond gall cwynion ffurfiol bara wythnosau neu fisoedd (yn seiliedig ar eu cymhlethdod).

Mae nifer o lwybrau y gallwch eu dilyn i leisio eich cwyn yn anffurfiol a/neu gael cefnogaeth. Gall gweithwyr llawrydd ddefnyddio'r holl lwybrau anffurfiol a chodau mynediad i ddefnyddio gwasanaethau, fel sy'n cael ei nodi isod;

- Siaradwch â'r unigolyn rydych chi'n teimlo sydd wedi achosi loes i chi er mwyn egluro'r sefyllfa ac egluro sut y gwnaeth i chi deimlo (os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn gwneud hyn). Gallwch ffonio'r Llinell Gymorth Bwlio ac Aflonyddu er mwyn cael help i baratoi i siarad â'r unigolyn (darllenwch y pwynt isod). Gall fod yn ddefnyddiol disgrifio'r diwrnod, y lle, y cyfarfod neu'r digwyddiad dan sylw fel bod yr unigolyn yn deall eich pryderon yn iawn. Dylech ddefnyddio'r cyfle i ofyn i'r unigolyn newid ei ymddygiad neu roi'r gorau i ymddwyn felly. Mae'n bwysig cofio efallai nad yw'r unigolyn arall yn ymwybodol o'i ymddygiad a/neu'r effaith mae'n ei chael arnoch chi.
- Siaradwch â'ch Rheolwr neu ei Reolwr, neu Gynrychiolydd o'ch Undeb Llafur (pan fo'n berthnasol) a fydd yn rhoi cymorth, cyngor a chanllawiau i'ch helpu i fynd i'r afael â'ch pryderon.

- Cysylltwch â llinell gymorth Bwlio ac Aflonyddu Care First sydd ar gael i bob cyflogai a gweithiwr llawrydd:
    - Ffoniwch 0800 014 7154 neu +44 1452 623367
    - Ar-lein: http://www.carefirst-lifestyle.co.uk.
    - **Enw defnyddiwr: bbcemployed. Cyfrinair: line1234.**

  Mae Care First yn sefydliad allanol cyfrinachol sy'n darparu cymorth emosiynol yn ogystal â chyngor, technegau a chanllawiau ymarferol i'ch helpu i geisio datrys materion sy'n ymwneud â bwlio, aflonyddu a/neu erledigaeth. Hefyd, gallant helpu a darparu cymorth i unigolion sydd wedi cael eu cyhuddo o fwlio, aflonyddu a/neu erledigaeth.

- Ewch i Sesiynau Cyfryngu. Mae cyfryngu yn broses wirfoddol (ar gyfer pob parti) ac mae'n cynnwys cyfarfodydd ag unigolion a chyfarfodydd ar y cyd er mwyn helpu i ganfod gwir achos y broblem. Efallai y bydd cyfryngu yn briodol yn eich achos chi ond bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Mae gennych chi a'r unigolyn arall ddewis ynghylch a ydych chi am gymryd rhan. Gall cyfryngu fod yn llwyddiannus iawn os ydych chi a'r unigolyn arall yn fodlon cymryd rhan lawn yn y broses a'ch bod chi wirioneddol yn awyddus i ddatrys y broblem rhyngoch chi. I gael rhagor o wybodaeth, gallwch chi fynd i'r Dudalen Cyfryngu ar Gateway, neu, i wneud cais am gyfryngu, siaradwch â'ch Rheolwr neu eich Partner Busnes Adnoddau Dynol. Os nad ydych chi'n siŵr pwy yw eich Partner Busnes Adnoddau Dynol, cysylltwch ag adran Adnoddau Dynol y BBC.

Ar ôl i chi ddilyn y broses anffurfiol, os nad yw'r llwybrau anffurfiol wedi bod yn foddhaol, efallai eich bod chi am wneud cwyn ffurfiol.

Y Broses Ffurfiol

Cam 1: Gwneud eich cwyn ffurfiol

Dylech gyflwyno eich cwyn yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r Ffurflen Codi Pryderon, cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad. Os ydych chi am gael rhagor o gymorth i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â Swyddog o'ch Undeb Llafur, pan fo'n berthnasol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi manylion llawn eich cwyn yn y ffurflen Codi Pryderon ar gyfer achosion o Fwlio ac Aflonyddu, gan gyflwyno unrhyw ddogfennau ategol rydych am iddynt gael eu hystyried. Efallai y bydd oedi wrth ddelio â'ch cwyn wrth i ragor o wybodaeth gael ei chasglu os nad yw'r honiadau'n ddigon clir. Hefyd, dylech nodi sut yr hoffech i'r mater gael ei ddatrys.

Os ydych chi'n rhan o'r Gweithlu Estynedig, gallwch gyflwyno eich cwyn ar dudalen 'Codi Pryderon' Gweithwyr Llawrydd y BBC.

Cam 2: Adolygu cwynion ffurfiol

Ar ôl i chi gyflwyno eich ffurflen Codi Pryderon ac unrhyw ddogfennau atodol i'r Ganolfan Datrys, byddant yn anfon cydnabyddiaeth ysgrifenedig atoch. Yna, bydd y Ganolfan Datrys yn y Gwaith yn gwirio mai'r polisi hwn yw'r llwybr mwyaf priodol ar gyfer delio â'ch cwyn. Os nad yw'n ymddangos bod yr ymddygiadau neu'r gweithredoedd honedig yn gyfystyr â bwlio, aflonyddu a/neu erledigaeth, bydd eich achos yn cael ei drin o dan **Weithdrefn Cwynion BBC Studios.** Mewn achos fel hyn, byddwch yn cael gwybod am y rhesymau cyn eich gwrandawiad Cwynion.

Os ystyrir ei bod yn briodol delio â'ch cwyn o dan y polisi hwn, bydd eich cwyn yn cael ei throsglwyddo i'r unigolion canlynol:

- **Rheolwr y Gwrandawiad:** yr unig un sy'n gwneud penderfyniadau. (Ni fydd y Rheolwr Gwrandawiad (HM) o radd is na'r unigolyn neu'r unigolion y mae eich cwyn yn ymwneud â nhw, ond fel arfer bydd o radd uwch. Pan na fydd hyn yn bosibl oherwydd bod cwyn yn ymwneud â chyflogai mewn band Uwch Arweinydd, bydd Rheolwr y Gwrandawiad o leiaf ar yr un lefel â'r unigolyn/unigolion y mae'r gŵyn yn ymwneud â nhw. Fel arfer, bydd y Rheolwr Gwrandawiad (HM) a benodir yn cael ei benodi o'r tu allan i'r uned fusnes berthnasol.

-)

- **Rheolwr Achos Adnoddau Dynol:** yn cael ei aseinio i ddarparu cymorth, canllawiau polisi ac i helpu i ymchwilio eich achos.

- **Arbenigwr Allanol:** bydd modd defnyddio Arbenigwr Allanol mewn achosion cymhleth; Pennaeth y tîm Cymorth yn y Gwaith fydd yn penderfynu ynghylch defnyddio Arbenigwr Allanol. Bydd yr Arbenigwr Allanol yn gweithredu fel swyddog sy'n gwneud penderfyniadau ar y cyd â Rheolwr y Gwrandawiad.

- **Arweinydd Cymorth Adnoddau Dynol:** yn darparu cymorth Adnoddau Dynol adrannol lleol i chi a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hynt eich achos, gan sicrhau bod systemau cymorth priodol mewn lle.

Byddwn yn ceisio delio â'ch cwyn cyn pen 90 diwrnod ar ôl i chi ei chyflwyno. Bydd y Rheolwr Achos Adnoddau Dynol yn cysylltu â chi yn fuan ar ôl i chi gyflwyno eich cwyn i gadarnhau'r broses. Os yw'n debygol na fydd eich achos yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlenni hyn, byddwch yn cael gwybod am hynny a'r rheswm/rhesymau pam.

Cam 3: Y gwrandawiad ffurfiol

Byddwch yn cael eich gwahodd i wrandawiad ffurfiol i drafod eich cwyn â Rheolwr y Gwrandawiad. Byddwn yn ceisio cynnig dyddiad i chi ar gyfer y gwrandawiad ffurfiol cyn gynted â phosib a chyn pen 10 diwrnod calendr ar ôl i dîm y Ganolfan Datrys gael y ffurflen gwyno wedi'i llenwi'n llawn.

Byddwch yn cael hysbysiad swyddogol ysgrifenedig o ddyddiad, amser a lleoliad eich gwrandawiad ffurfiol a byddwch yn cael pum diwrnod gwaith o rybudd o'ch angen i fod yn bresennol er mwyn sicrhau bod gennych chi ddigon o amser i baratoi. Rydym yn gwerthfawrogi y gall gweithwyr llawrydd fod yn gweithio yn rhywle arall, felly mewn achosion lle rydym yn ystyried ei bod yn briodol cael cyfarfod wyneb yn wyneb, byddwn yn gweithio gyda chi i gytuno ar y cyd ar amser a dyddiad addas i drafod eich cwyn.

Mae gennych chi'r hawl i gael cynrychiolydd undeb llafur neu gydweithiwr o'r BBC gyda chi i'ch cefnogi yn ystod y broses (nid cyfreithiwr sy'n ymarfer nac

unrhyw un sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'ch achos, ee, tyst) mewn unrhyw wrandawiad ffurfiol. Dylech roi gwybod i'ch Rheolwr Achos Adnoddau Dynol cyn y gwrandawiad am enw'r unigolyn sy'n dod gyda chi, fel bod modd iddo wirio nad oes gwrthdaro rhwng buddiannau. Pan fydd gwrthdaro rhwng buddiannau, mae'r BBC yn cadw'r hawl i fynnu eich bod yn dod o hyd i rywun arall i'ch cefnogi.

Pan fyddwch chi wedi cael gwahoddiad i wrandawiad ffurfiol (naill ai yng Ngham 3 neu mewn gwrandawiad apêl yng Ngham 4 isod) ac nad ydych chi'n gallu dod ar yr amser a'r dyddiad sydd wedi'u trefnu, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caniateir i wrandawiad gael ei aildrefnu (mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau busnes hanfodol yn gwrthdaro ag amser y gwrandawiad, eich absenoldeb oherwydd salwch neu wrthdaro ag unrhyw wyliau blynyddol sydd gennych chi). Os na all eich cydymaith ddod ar yr amser sydd wedi'i bennu, efallai y byddwch yn gallu awgrymu amser arall. Mewn achosion lle bydd dau ddyddiad gwrandawiad wedi'u trefnu ac na allwch chi ddod i'r un ohonynt, efallai y bydd Rheolwr y Gwrandawiad yn penderfynu gwneud penderfyniad yn eich absenoldeb. Os nad ydych chi'n gallu dod i'r gwrandawiad oherwydd salwch, efallai y byddwn yn gofyn am fewnbwn lechyd Galwedigaethol, gyda'ch cydsyniad, fel y gallwn bennu a ydych chi'n gallu dod i wrandawiad. Os ydych chi'n cael trafferth ag argaeledd y cydymaith rydych wedi'i ddewis a bod y gwrandawiad eisoes wedi'i aildrefnu unwaith, byddwn yn gofyn i chi ddod o hyd i gydymaith arall os nad yw'r ail ddyddiad yn addas iddo.

Yn y gwrandawiad, bydd Rheolwr y Gwrandawiad yn rhoi cyfle llawn i chi esbonio eich cwyn ac efallai y bydd yn gofyn i chi roi eglurhad ar y dogfennau rydych chi wedi'u cyflwyno.

Efallai y bydd gofyn gohirio'r gwrandawiad er mwyn caniatáu ymchwiliad pellach (er enghraifft fel bod modd siarad ag unrhyw dyst). Byddwch yn cael gwybod os bydd gofyn gohirio ac yn cael amcangyfrif o'r amserlen.

Wrth i ni ymchwilio i'ch cwyn, efallai y byddwn yn gosod mesurau dros dro i reoli'r sefyllfa; er enghraifft, efallai y byddwn yn trefnu i chi a/neu'r unigolion eraill sy'n gysylltiedig gael eich adleoli dros dro, neu efallai y byddwn yn penderfynu newid yr unigolyn rydych chi'n adrodd iddo dros dro. Mewn achosion

penodol, efallai y byddwn yn penderfynu ei bod yn briodol atal yr unigolion eraill cysylltiedig o'r gwaith.

Bydd gennych yr hawl i amser rhesymol â thâl o'r gwaith er mwyn mynd i'r gwrandawiad ffurfiol (ac unrhyw wrandawiad sydd wedi'i ail-alw ar ôl cael ei ohirio). Dylech roi gwybod i'ch Arweinydd Tîm cyn gynted ag y byddwch yn gwybod am y dyddiad(au) perthnasol fel bod modd trefnu digon o staff cyflenwi yn ystod eich absenoldeb.

Ar ôl i'ch cwyn gael ei hymchwilio yn llawn ac ar ôl dod i gasgliad, bydd Rheolwr y Gwrandawiad yn cyfleu ei benderfyniad i chi yn ysgrifenedig. Bydd yr unigolion eraill cysylltiedig yn cael gwybod am y canlyniad yn ysgrifenedig hefyd.

Mae'r broses ffurfiol yn penderfynu a oes 'achos i'w ateb'. Os yw Rheolwr y Gwrandawiad yn penderfynu bod achos i'w ateb, bydd yr wybodaeth sydd wedi'i darparu yn eich cwyn yn cael ei hadolygu o dan **Weithdrefn Ymddygiad BBC Studios** a bydd yr unigolyn y mae eich cwyn yn ymwneud ag ef (os yw'n gyflogai) yn cael ei wahodd i wrandawiad disgyblu o dan y polisi hwnnw, i drafod y mater. Efallai y byddwch yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y broses ddisgyblu olynol hon. Oherwydd rhesymau cyfrinachedd, ni fyddwn yn gallu rhoi gwybod i chi am union ganlyniad y broses honno; fodd bynnag, byddwch yn cael gwybod pan fydd y broses honno wedi dod i ben.

Bydd gwrandawiadau disgyblu sy'n deillio o gŵyn am fwlio a/neu aflonyddu yn cael eu clywed gan reolwr gwrandawiad ar wahân a fydd yn cael ei benodi o'r tu allan i'r llinell reoli i reolaeth linell y cyflogai o dan **Weithdrefn Ymddygiad BBC Studios**.

Ymchwiliadau i Ganfod y Ffeithiau

Fel rhan o'r ymchwiliad i atal bwlio ac aflonyddu, bydd ymchwiliad i ganfod y ffeithiau yn cael ei gynnal fel arfer. Mewn achosion penodol, yn enwedig pan fydd cwyn yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol neu ryw ffurf arall ar ymddygiad amhriodol

a/neu sensitif, efallai na fyddwch yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud eich cwyn ffurfiol yn ysgrifenedig (fel yr amlinellir uchod) ac efallai y byddwch chi, er enghraifft, wedi penderfynu siarad ag aelod o'r tîm rheoli neu Bartner Busnes Adnoddau Dynol am y mater yn lle hynny.

Mewn achosion fel hyn, efallai y bydd y BBC yn penderfynu cynnal ymchwiliad yng nghyswllt eich cwyn ar ffurf "ymchwiliad i ganfod y ffeithiau". Efallai y bydd yr ymchwiliad i ganfod y ffeithiau yn golygu y bydd aelod o staff o'r Gwasanaeth Ymchwiliadau a/neu'r Ganolfan Datrys yn cyfarfod â chi i ystyried beth yw'r ffordd orau o fwrw ymlaen â'ch cwyn. Efallai y bydd Rheolwr Ymchwiliadau (o adran wahanol, neu o is-adran wahanol pan na fydd hynny'n bosibl) hefyd yn cael ei benodi i ymchwilio i'r honiadau.

Bydd gennych chi'r hawl i gael cwmni mewn unrhyw gyfarfod ymchwiliad i ganfod y ffeithiau fel y byddech chi'n gallu yng Ngham 2 y broses ffurfiol a amlinellir uchod, hynny yw, gallech ddod â chynrychiolydd undeb llafur cydnabyddedig neu gydweithiwr o'r BBC (nid cyfreithiwr sy'n ymarfer) i'r cyfarfod gyda chi.

Bydd yr ymchwiliad i ganfod y ffeithiau yn ceisio sefydlu natur eich cwyn; am bwy mae'r gŵyn ac unrhyw dystion y gall siarad â nhw fod yn berthnasol. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pa gamau nesaf priodol y dylai'r BBC ystyried eu cymryd. Os yw'r honiadau rydych chi wedi'u cyflwyno o natur ddigon difrifol, efallai y bydd ar y BBC angen ystyried cymryd camau priodol fel y rheini yn unol â pholisïau disgyblu perthnasol y BBC (a all olygu bod yr atebydd honedig i'r honiadau rydych chi wedi'u lleisio yn cael ei atal o'i waith dros dro).

Oherwydd rhesymau cyfrinachedd, ni fyddwn yn gallu rhoi gwybod i chi am union ganlyniad unrhyw ymchwiliad i ganfod y ffeithiau; fodd bynnag, byddwch yn cael gwybod pan fydd y broses honno wedi dod i ben. Efallai y bydd gofyn i chi gymryd rhan yn y broses ddisgyblu, yn dibynnu ar fanylion yr achos, a bydd cefnogaeth lawn yn cael ei rhoi i chi.

Cofiwch mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y broses amgen hon o ganfod y ffeithiau'n cael ei defnyddio. Bydd unigolion yn cael eu hannog i leisio eu cwynion yn anffurfiol ac yn ffurfiol yn unol â'r uchod.

Y Broses Apelio

Cam 4: Eich hawl i apelio

Os ydych chi am apelio i ganlyniad eich cwyn, rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 diwrnod calendr ar ôl i'r penderfyniad gael ei ddarparu i chi yn ysgrifenedig. Rhaid i chi nodi seiliau eich apêl yn glir cyn i ni fwrw ymlaen â'ch apêl, gan sicrhau eich bod yn rhoi cynifer o fanylion â phosibl yn ogystal ag unrhyw ddogfennau ategol pan fydd yr apêl yn cael ei gwneud. Gall seiliau cyfreithlon dros apelio, er enghraifft, gynnwys gwallau o ran gweithdrefnau, methiant i ystyried tystiolaeth berthnasol a/neu fethiant i fynd i'r afael â'r holl honiadau. Dylid rhoi unrhyw ddogfennau ychwanegol cyn pen dau ddiwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Bydd hyn yn galluogi Rheolwr y Gwrandawiad sydd wedi'i benodi ar gyfer yr apêl i ddeall y pwyntiau rydych chi am eu hapelio a pharatoi'n ddigonol ar gyfer y gwrandawiad.

Byddwch yn cael eich hysbysu ar ôl i'ch apêl gael ei derbyn.

Byddwn yn ceisio delio â'ch apêl cyn pen 90 diwrnod calendr ar ôl y dyddiad y byddwch yn cyflwyno eich seiliau dros apelio.

Mae'r BBC yn ceisio cynnig dyddiad ar gyfer gwrandawiad apêl i chi cyn gynted â phosibl a chyn pen 10 diwrnod calendr ar ôl cael eich seiliau dros apelio.

Ar ôl i'ch apêl gael ei derbyn, bydd yr unigolion canlynol yn cael eu haseinio i'ch apêl:

- **Rheolwr y Gwrandawiad:** swyddog gwneud penderfyniadau ar y cyd (o'r tu allan i'r adran neu, os nad yw hynny'n bosibl, yr is-adran);
- **Arbenigwr Allanol:** swyddog gwneud penderfyniadau ar y cyd sydd â'r bleidlais fwrw os nad oes modd dod i gytundeb;

- **Rheolwr Achos Adnoddau Dynol:** yn cael ei aseinio i ddarparu cymorth a chanllawiau polisi, yn ogystal â chynnal unrhyw ymchwiliad ychwanegol i ganfod y ffeithiau; ac

- **Arweinydd Cymorth Adnoddau Dynol:** i ddarparu cymorth Adnoddau Dynol adrannol lleol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hynt eich achos.

Ni fydd Rheolwr y Gwrandawiad na'r Arbenigwr Allanol wedi bod yn gysylltiedig â'ch cwyn cyn hyn.

Fel rhan o'r broses apelio, bydd arnom angen rhannu'r dogfennau perthnasol o'ch cwyn wreiddiol â Rheolwr y Gwrandawiad a'r Arbenigwr Allanol newydd.

Bydd Rheolwr y Gwrandawiad a'r Arbenigwr Allanol yn adolygu ac yn ymchwilio i seiliau eich apêl. Byddwch yn cael eich gwahodd i wrandawiad apêl ffurfiol i drafod seiliau eich apêl a bydd yr un broses yn cael ei dilyn ar gyfer y gwrandawiad (apêl) ffurfiol hwn fel y nodir yng Ngham 3 uchod.

Ar ôl i seiliau eich apêl gael eu hymchwilio yn llawn ac ar ôl dod i gasgliad, bydd Rheolwr y Gwrandawiad a'r Arbenigwr Allanol yn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich apêl yn cael ei chymeradwyo ai peidio.

Os bydd eich apêl yn cael ei chymeradwyo, ac yr ystyrir felly bod 'achos i'w ateb', bydd yr wybodaeth a ddarperir yn eich cwyn (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir yn eich apêl) yn cael eu hadolygu gan y Ganolfan Datrys o dan **Weithdrefn Ymddygiad BBC Studios** a bydd yr unigolyn y mae eich cwyn yn ymwneud ag ef (os yw'n gyflogai) yn cael ei wahodd i wrandawiad disgyblu o dan y polisi hwnnw, er mwyn trafod y mater. Oherwydd rhesymau cyfrinachedd, ni fyddwn yn gallu rhoi gwybod i chi am ganlyniad y broses honno; fodd bynnag, byddwch yn cael gwybod pan fydd y broses honno wedi dod i ben.

Os na fydd eich apêl yn cael ei chymeradwyo, ni fydd unrhyw hawl bellach i apelio.

Cyfrinachedd a Datgelu Data

Mae cyfrinachedd yn rhan bwysig o ddefnyddio'r polisi hwn a byddwn yn parchu ac yn cynnal eich cyfrinachedd pan fo hynny'n bosibl. Byddwn hefyd yn atgoffa unrhyw un sy'n gysylltiedig â'ch cwyn am eu cyfrifoldebau i gadw cyfrinachedd.

Efallai y bydd enghreifftiau lle bydd gwybodaeth rydych chi wedi'i chyflwyno a/neu rydym wedi'i chasglu mewn perthynas â'ch cwyn o dan y polisi hwn angen ei datgelu:

- i bartïon eraill fel rhan o unrhyw gam pellach neu broses gan BBC Studios rydym yn ystyried sy'n briodol i'w dilyn; ac
- yn unol â rhwymedigaethau adrodd neu rai cyfreithiol BBC Studios.

Drwy gyflwyno gwybodaeth yn ystod unrhyw gam o'r prosesau sydd wedi'u hamlinellu yn y polisi hwn, rydych yn cytuno i ddatgelu gwybodaeth o'r fath ar gyfer y dibenion uchod.

Ymchwiliadau Troseddol

Pan fydd yr honiadau yn eich cwyn neu apêl yn cynnwys mater troseddol posibl, efallai y bydd angen cysylltu â'r heddlu a bydd adolygiad mewnol yn cael ei gynnal i bennu pa bryd y gall unrhyw rai o brosesau mewnol y BBC ddechrau.

Pa gymorth a chanllawiau sydd ar gael?

Mae gennym wasanaethau cymorth mewnol ac allanol ar gael i bawb sy'n gweithio i'r BBC; ewch i'r tudalennau cymorth hyn ar fewnrwyd BBC Studios neu'r Porth Gweithwyr Llawrydd.

Mae cymorth hefyd ar gael gan Reolwyr Achos Ganolfan Datrys os ydych chi'n cael eich cyhuddo o fwlio, aflonyddu neu erledigaeth, yn cael eich crybwyll fel tyst yn y gŵyn neu os ydych chi wedi bod yn dyst i fwlio neu aflonyddu.

Gallwch hefyd ddarllen mwy am yr ymddygiad sy'n ddisgwyliedig yn y gwaith ar ein tudalen Parch yn y Gwaith a Chodi Llais ar y fewnrwyd.

Y Rheoliad ar Ddiogelu Data

Mae ein Hysbysiadau Preifatrwydd Pobl yn disgrifio sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi yn ystod eich perthynas weithio â ni, ac wedi hynny, yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016/679 (GDPR). Os bydd arnoch angen rhagor o fanylion am y ffordd mae'ch data personol yn cael ei brosesu, gofynnwn i chi ddarllen y ddogfen hon, sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad hwn drwy gyfeirio ati.

Mae gwybodaeth ychwanegol am sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ac am ba hyd y byddwn yn ei chadw yn y Llawlyfr Diogelu Data ac yn ein Hamserlen Cadw Corfforaethol.

Eich cyfrifoldeb chi yw ymgyfarwyddo â hysbysiadau a pholisïau prosesu data'r BBC a nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â sut mae'r BBC yn prosesu data, cysylltwch â'ch rheolwr.